RHIFYN
EDITION
66

Llais Llantrisant

18.07.25

TAITH IAITH
WELSH LANGUAGE JOURNEY





Os ydych chi'n adnabod rhywun sydd yn ystyried addysg Gymraeg i'w plentyn/plant, rhannwch y wybodaeth uchod gyda nhw, os gwelwch yn dda!
If you know someone who is considering Welsh medium education for their child(ren), please share the above information with them!





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

15.09.25 - Wythnos cyfarfodydd 'Cwrdd â'r Athrawon'
Week of 'Meet the Teachers' meetings
20.10.25 - Noson Agored #1
Open Evening #1
21.10.25 - Noson Agored #2
Open Evening #2
24.10.25 - Diwrnod ola'r hanner tymor cyntaf
Last day of first half term
19.12.25 - Diwrnod olaf Tymor yr Hydref
Last day of the Autumn Term

DIOLCH A GWELWN NI CHI CYN BO HIR!
THANK YOU AND WE'LL SEE YOU SOON!

Ar ddiwedd blwyddyn brysur arall, ar ran holl staff yr ysgol, hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth unwaith eto eleni. Hefyd, diolch am yr holl roddion hael yr ydym wedi'u derbyn wrth i'r plant ffarwelio â'u dosbarthiadau ac athrawon presennol. Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau yn cyflwyno'r cardiau o ddiolch a'r anrhegion i'r staff a'u ffrindiau - ar ran pawb, diolch yn fawr iawn i chi.

Mwynhewch wyliau'r Haf a gwelwn ni chi ar ddydd Mawrth, Medi'r 2ail. Edrychwn ymlaen at glywed newyddion y plant sydd yn dychwelyd atom yn y tymor newydd!

At the end of another busy year, on behalf of all the school staff, I would like to thank you for your cooperation and support once again this year. Also, thank you for the generous gifts we have received as the children say goodbye to their current classes and teachers. The children have been delighted to present the thank you cards and gifts to the staff and their friends - on behalf of everyone, thank you very much.

Enjoy the Summer break and we'll see you on Tuesday, September 2nd. We look forward to hearing the returning children's news in the Autumn term!



Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**

LLWYDDIANNAU

SUCCESSES

Llongyfarchiadau mawr i'r plant isod ar eu llwyddiannau diweddar. Cofiwch roi gwybod i ni os hoffech i'ch plentyn gael ei gynnwys mewn rhifyn o 'Llais Llantrisant' yn y dyfodol.

Many congratulations to the children below on their recent successes. Remember to let us know if you'd like your child to be included in a future edition of 'Llais Llantrisant'.
























DANCE WORLD
WORLD CUP


Well Done








AINDY
FLYER



FFARWEL A DIOLCH!

FAREWELL AND THANK YOU!



Bydd Mrs Alyson Hurst yn ymddeol ar ddiwedd Tymor yr Haf eleni wedi 41 o flynydoedd fel Nyrs Feithrin a Chynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch yn yr ysgol. Ymunodd Mrs Hurst â staff yr ysgol ym Medi, 1983. Tybed faint o blant bach sydd wedi cael eu haddysgu o dan ofal Mrs Hurst yn ystod y cyfnod hwn?
Mawr iawn yw ein diolch i Mrs Hurst am ei hymroddiad a'u gwaith caled ar hyd y blynyddoedd. Anodd iawn fydd dweud ffarwel wrthi, ond rwy'n siwr y bydd hi'n ymweld â ni o fis Medi ymlaen! Byddwn yn gweld eisiau arbenigedd a dawn greadigol Mrs Hurst ond bydd cyllid 'llygaid googly' yr ysgol ar gyfer gweithgareddau crefft yn gostwng!
Mrs Alyson Hurst will retire at the end of the Summer Term this year after 41 years as a Nursery Nurse and Higher Level Teaching Assistant at the school. Mrs Hurst joined the school staff in September, 1983. I wonder how many children have been taught by Mrs Hurst during this period?
We are very grateful to Mrs Hurst for her dedication and hard work over the years. It will be very difficult to say goodbye to her, but I am sure she will visit us from September onwards! We shall miss her expertise and artistic flair but the school's budget for 'googly eyes' for craft sessions will dramatically decrease!



Hoffem longyfarch Mr Euros Jones ar ei benodiad yn Ddirprwy Bennaeth, Ysgol y Ferch o'r Sgêr, Sir Penybont, ar gyfer Medi 2025. Heb os, bydd yr ysgol yn gweld eisiau Mr Jones yn fawr a hoffem ddiolch iddo am ei ymroddiad i'r ysgol ac am ei holl waith caled, y tu fewn a thu fas i'r ystafell ddosbarth, ers iddo ymuno â ni fis Medi 2013. Nid yn unig fel Athro y byddwn yn gweld eisiau Mr Jones ond fel hyfforddwr chwaraeon a Thechnegydd TGCh hefyd!
We should like to congratulate Mr Euros Jones following his appointment as Deputy Head Teacher at Ysgol y Ferch o'r Sgêr, Bridgend, for September 2025. Without a doubt, we shall miss Mr Jones a great deal and should like to thank him for his commitment to school and for all his hard work, both inside and outside of the classroom, since he joined us in September, 2013.
Not only as a class Teacher shall we miss Mr Jones, but also as a sports coach and ICT Technician!



Bydd Mrs Cathy Cowles yn gorffen yn ei rôl fel Cynorthwyydd Dosbarth ar ddiwedd Tymor yr Haf. Mae Mrs Cowles wedi bod yn aelod ffyddlon o staff yr ysgol ers Mawrth, 1989 - fel Goruchwylydd y Neuadd Ginio, Cynorthwyydd Un i Un a Chynorthwyydd Dosbarth ar hyd y blynyddoedd. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Mrs Cowles am ei hymroddiad a'r holl waith caled ar hyd y blynyddoedd ond byddwn dal yn gweld Mrs Cowles bob amser cinio gan ei bod yn aros gyda ni fel Goruchwylydd y Neuadd Ginio. Cadwa dy chwiban yn ddiogel, Mrs Cowles!
Mrs Cathy Cowles will finish in her role as Classroom Assistant at the end of the Summer Term. Mrs Cowles has been a loyal member of the school's staff since March, 1989 - as a Lunchroom Supervisor, One to One Assistant and Classroom Assistant throughout the years. We would like to thank Mrs Cowles very much for her dedication and all her hard work throughout the years but we shall still see Mrs Cowles every lunchtime as she intends to carry on in her role as Lunch Hall Supervisor. Keep your whistle safe, Mrs Cowles!



Bydd Miss Rebecca Shephard yn gorffen yn ei rôl fel Cynorthwyydd Addysgu ar ddiwedd Tymor yr Haf. Daeth Miss Shephard atom fis Mawrth, 2023 wedi iddi weithio gyda ni trwy Asiantaeth cyn hynny. Hoffem ddiolch i Miss Shephard am ei holl waith caled yn ystod y cyfnod hwn a dymunwn bob lwc iddi yn ei rôl nesaf.
Miss Rebecca Shephard will finish in her role as Teaching Assistant at the end of the Summer Term. Miss Shephard joined us in March, 2023 having undertaken Supply work with us previously. We should like to thank Miss Shephard for all her hard work during this period and wish her all the very best in her next post.

YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL GYMRAEG LLANTRISANT

HWYL AM Y TRO!

BYE FOR NOW!

Pob lwc a diolch i ddisgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt adael ein hysgol ni a symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Braf iawn oedd gweld pob un ohonynt yn tyfu ac yn datblygu yn ystod eu hamser yn yr ysgol hon i fod yn unigolion cyfrifol yn barod am yr heriau newydd sydd o'u blaenau. Edrychwn ymlaen at glywed am eu datblygiad a chynnydd yn yr ysgol uwchradd yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Good luck and thank you to our Year 6 pupils as they leave us and move on to secondary school. It is most rewarding to have seen each of them grow and develop during their time at this school to be responsible individuals ready for the new challenges ahead. We look forward to hearing of their continued progress and development at secondary school during the years to come.



ECOSGOLION

ECOSCHOOLS

Newyddion da! Mae plant a staff yr ysgol wedi llwyddo i adnewyddu statws Platinwm EcoSgolion y tymor hwn! Da iawn wir i bawb am eu holl waith caled!

Good news! The children and staff have succeeded in renewing our EcoSchools Platinum status this term! Well done to everyone for all of their hard work!

